# TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

## LLENYDDIAETH GYMRAEG

## IONAWR 2019

© WJEC CBAC Cyf.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

**Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

© WJEC CBAC Cyf.

**Llenyddiaeth Gymraeg**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**Ionawr 2019**

## Uned 1: Barddoniaeth

Ar gyfer cyfres arholiadau Ionawr 2019 'Rhaid Peidio Dawnsio yng Nghaerdydd' oedd y gerdd osod ar yr haen sylfaenol gyda 'Torri'r Rhaff' gan Helen Fychan yn ymddangos fel yr ail gerdd ar gyfer ei chymharu. 'Ofn' a 'Sut i Ymddwyn Mewn Castell' gan Myrddin ap Dafydd oedd y ddwy gerdd a ymddangosodd ar bapur yr haen uwch.

Ar y ddwy haen, roedd nifer o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i ddod o hyd i nifer o elfennau i'w cymharu yn y ddwy gerdd. Roedd y goreuon ar y ddwy haen wedi llwyddo i ddarganfod elfennau a oedd yn dangos gallu i ddeall a dadansoddi cerdd mewn amser byr iawn. Mae'r canolfannau yn amlwg wedi parhau i hyfforddi'r ymgeiswyr yn drwyadl, ac ychydig iawn o ymgeiswyr oedd wedi methu â chyfeirio at arddull wrth drafod y cerddi. Prin iawn oedd yr ymgeiswyr a gyflwynodd bapur o hyd annigonol.

Roedd y rhai oedd wedi cyrraedd y brig wedi trafod cynnwys y cerddi'n fanwl. Roedd pob darn o'r ddwy gerdd wedi cael sylw manwl ganddynt, a defnydd helaeth o ddyfyniadau byrion. Nid oes angen dyfyniadau hir yn cynnwys nifer o linellau gyda'i gilydd. Roedd tueddiad i wneud hyn gan y rhai nad oedd wir yn dangos dealltwriaeth o'r cerddi.

Llawysgrifen aneglur oedd problem rhai ymgeiswyr. Mae modd gwneud trefniadau gyda CBAC i oresgyn y broblem hon. Gellir defnyddio prosesydd geiriau a chyflwyno gwaith wedi'i argraffu os nad oes ysgrifen ddealladwy gan yr ymgeisydd, neu os oes rheswm arall am fethu ag ysgrifennu â llaw.

### Haen Uwch

Roedd y goreuon wedi llwyddo i drafod mai'r llywodraeth sy'n rheoli ein hofnau yn 'Ofn' – lleiafrif yr ymgeiswyr oedd y rhain. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi trafod 'terfysgaeth' fel prif neges/thema 'Ofn'.

Gyda'r gerdd 'Sut i Ymddwyn Mewn Castell', roedd yr ymgeiswyr gwannach wedi trafod 'rhyfel' a'r syniad mai ymosodiad ar y castell oedd cynnwys y gerdd. Roedd y goreuon wedi gweld mai symbol oedd y castell am y ffordd y mae Cymru wedi cael ei rheoli a'i choncro, ac na ddylen ni fod ag ofn hyn bellach.

Roedd y mesur wedi creu trafferthion i rai wrth nodi mai 'cerdd gaeth' oedd 'Sut i Ymddwyn Mewn Castell'. Roedd y goreuon wedi llwyddo i gyfleu sut roedd y mesur yn cyd-fynd â neges y gerdd.



© WJEC CBAC Cyf.

**Haen Sylfaenol**

Roedd y mwyafrif wedi deall cynnwys y ddwy gerdd ac wedi cymharu'n effeithiol er bod yr atebion yn amrywio o ran dyfnder, cynnwys a pherthnasedd. Roedd y goreuon wedi mynd drwy'r ddwy gerdd yn fanwl, gan fanylu ar y cynnwys. Tueddiad rhai oedd nodi ambell i bwynt cynnwys hwnt ac yma, heb wir fod wedi ysgrifennu digon i ddangos dealltwriaeth lawn o'r cerddi.

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi dyfynnu'n bwrpasol ac adnabod nodweddion arddull yn y ddwy gerdd. Roedd y goreuon yn llwyddo i nodi'r rheswm am effeithiolrwydd yr arddull.

Byddai'n werth atgoffa'r ymgeiswyr ar y ddwy haen am gywirdeb yr elfennau sylfaenol e.e. *y gerdd hon, mae'r ddwy gerdd, y llinell hon, y pennill hwn, y trosiad, y gyffelybiaeth, y gymhariaeth* ayb.

Ailadroddwn y paragraff hwn fel yr oedd yr yr adroddiad blaenorol gan mai dyma un o'r ffactorau sy'n cyfrannu fwyaf at benderfynu'r marc terfynol:

**'Yr elfen o'r cynllun marcio sy'n cyfrannu fwyaf at y marciau yw trafod a chymharu'r cynnwys. Yn sicr mae angen i'r ymgeiswyr sicrhau manylder wrth wneud hyn er mwyn sicrhau'r marciau uchaf. Roedd rhai heb gyfeirio o gwbl at ambell i bennill tra oedd y goreuon yn trafod yn gwbl fanwl.'**

Apeliwn eto ar y canolfannau i barhau i gynnig digon o ymarfer cymharu'r cerddi gosod â cherddi eraill.

Diolch yn fawr i'r canolfannau am eu gwaith eleni eto yn paratoi'r ymgeiswyr.



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

ⓗ WJEC CBAC Cyf.